**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1571
Ein cyf/Our ref JMHSC/00030/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

28 Ionawr 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Ionawr ynghylch Deiseb P-06-1571: Dylai Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr osod uned mân anafiadau wedi'i hariannu'n llawn yng Nghanolfan Iechyd Llangollen.

Cyfrifoldeb byrddau iechyd unigol yw penderfynu ynghylch ble i leoli unedau mân anafiadau a gwasanaethau iechyd eraill. Y rheswm dros hyn yw mai byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd yn unol ag anghenion eu poblogaethau.

Rwyf wedi bod yn glir yn fy nisgwyliad bod yn rhaid i wasanaethau fod yn ddiogel, yn gynaliadwy, ac yn ymatebol i anghenion y boblogaeth leol, a'u bod yn cael eu darparu'n unol â safonau proffesiynol a chanllawiau clinigol. Mae hynny'n cynnwys cynllunio trylwyr yn seiliedig ar y galw, y capasiti, y gweithlu, ac adnoddau ariannol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n effeithiol ac yn wydn.

Rwyf hefyd wedi gosod disgwyliadau clir ar gyfer gwelliannau mewn gofal brys yng Ngogledd Cymru – nid yw safonau lle rydw i, y cyhoedd na staff y GIG yn disgwyl nac eisiau iddynt fod. Mae pobl yn treulio'n rhy hir yn aros mewn adrannau argyfwng ar draws y rhanbarth, ac mae hynny'n effeithio ar eu profiad a'u canlyniadau.

Mae'r bwrdd iechyd yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, y rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru i'w helpu i weithredu'r gwelliannau angenrheidiol i ansawdd a phrydlondeb ei wasanaethau gofal brys ac argyfwng, a phrofiad y bobl sy'n defnyddio ei wasanaethau.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddais y byddai tîm allanol o arbenigwyr yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu cymorth a:

- Lleihau'r oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, a gwella'r llif
- Lleihau'r amseroedd aros ar gyfer triniaeth wedi'i chynllunio a phrofion diagnostig
- Gwella'r amseroedd aros ar gyfer diagnosis a thriniaeth canser

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cryfhau llywodraethiant, sicrwydd a gallu arweinyddol ymhellach.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care